FARMING connect
cyswllt FFERMIO

# RHEOLI GWASARN DOFEDNOD
## er mwyn sicrhau Iechyd a Pherfformiad Adar

- Mae haid o ddofednod a gedwir ar wasarn wedi'i gadw'n dda yn **iachach** ac yn **fwy proffidiol**
- Mae gwasarn o ansawdd isel yn achosi **pododermatitis**, **llosg ar y garrau**, a **phothelli ar y frest; "syndrom coesau sigledig"** mewn tyrcwn – rhesymau dros israddio carcasau
- Galw cynyddol am draed ieir o Tsieina – mae premiwm ar gael ar gyfer traed heb eu marcio
- Gofyniad cyfreithiol i gadw gwasarn mewn cyflwr da

### CYFLYRAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â GWASARN O ANSAWDD ISEL



LLOSG AR Y GARRAU



PODODERMATITIS



POTHELLI AR Y FREST

### FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR GYFLWR GWASARN

| 1. Lleithder y gwasarn | 2. Gwasarn seimllyd | 3. Nitrogen yn y gwasarn |
|---|---|---|
| Yn allweddol mewn achosion o losg ar y garrau, pododermatitis a phothelli ar y frest | Mae gormodedd o fraster mewn bwyd yn cynyddu'r braster yn y carthion | Mae'r pothelli/llosgiadau gwaethaf yn digwydd pan fo N yn uwch na 5.5% |
| Yn cael ei effeithio gan ddyluniad cafnau dŵr, y tywydd, gwres ac awyriad, deunydd a dyfnder gwasarn, dwysedd stocio, diet ac iechyd adar | Mae braster uchel yn achosi i'r gwasarn golli breuder | Archwilio'r diet am gyfanswm ac ansawdd y protein |
| | Archwilio'r diet am fraster | |





*Gwasarn sych = adar iachach*





*Lefel N uchel mewn gwasarn = colli plu ar y frest*

## Awyriad ac amgylchedd y sied

- Rhyng-gysylltu rheolyddion **tymheredd yr amgylchedd, awyriad a lleithder**
- Mae **nifer, oed yr adar a lleithder perthynol yr aer** sy'n cael ei dynnu i'r system awyru yn effeithio ar leithder
- Lleithder targed o **50 – 70%**
- Cyfradd awyru i gynnal lefelau amonia **< 25 rhan fesul miliwn**
- Inswleiddio toeau a waliau i atal cyddwysiad

## Bwyd/Diet

- Mae ffactorau dietegol sy'n cynyddu cymeriant dŵr yn arwain at wasarn gwlypach
- Ni ddylai lefelau **Sodiwm clorid, sodiwm bicarbonad, protein crai ac asidau amino** fynd uwchben y gofyniad
- Mae gormodedd o **brotein crai ac asidau amino** yn cynyddu gollyngiad N ac felly'n gwaethygu llosgiadau

# Sut i reoli cyflwr y gwasarn



## Dwysedd stocio

- Uchafswm – **34 kg/m2** ar gyfer brwyliaid, dim mwy na **7 aderyn /m2** ar gyfer dofednod dodwy
- Influences rate of evaporation of moisture

## Deunydd a dyfnder y gwasarn

- Mae **naddion pren** yn amsugno mwy na **gwellt**
- Defnydd o ychwanegiadau ar y gwasarn - **asidau, bio-olosg, calsiwm ocsid (quicklime), calch wedi'i hydradu**
- Mae gwasarn brau yn cynnwys bacteria sy'n dadelfennu ysgarthion ac yn rhyddhau gwres **gan gadw'r gwasarn yn gynnes**

## Cafnau yfed

- **Y ffactor pwysicaf** sy'n effeithio ar leithder gwasarn yw dyluniad a dulliau rheoli cafnau yfed
- Rhaid i'r cafnau yfed fod ar yr uchder cywir ar gyfer yr adar

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

www.llyw.cymru/cyswlltffermio